



**POLISI AELODAETH**  
**(Cyfranddalwyr)**

**1. DATGANIAD POLISI**

Anogir unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau lleol ar draws ein hardal weithredu i ymaelodi â'r Gymdeithas er mwyn inni fod yn gorff atebol a chynrychioladol, gydag aelodaeth sy'n adlewyrchu diddordebau y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

**2. HAWLIAU A DYLETSWYDDAU AELODAU**

- 2.1 Disgwylir i'r aelodau gydymffurfio â'r dyletswyddau a osodir arnynt gan reolau cofrestredig y Gymdeithas. Byddant bob amser yn ystyried buddiannau y Gymdeithas ac yn gweithredu fel ceidwaid ei hamcanion, er budd y gymuned.
- 2.2 Cyflwynir un cyfranddaliad gwerth un bunt i bob aelod. Nid yw'r cyfranddaliad yn rhoddi hawl i aelod dderbyn llog, difidend neu fonws. Ni all aelod ddal mwy nag un cyfranddaliad. Ni ellir dal cyfranddaliad ar y cyd, ac eithrio enwebai corff anghorfforedig.
- 2.3 Ni ellir trosglwyddo cyfranddaliadau ac eithrio rhwng enwebai corff anghorfforedig e.e. elusen neu awdurdod lleol.
- 2.4 Pan fydd aelod yn gadael y Gymdeithas am ba bynnag reswm diddymir y cyfranddaliad.
- 2.5 Dim ond aelodau y Gymdeithas sydd yn cael bod yn aelodau o'r Bwrdd Rheoli, ac eithrio aelodau cyfetholedig. Cynhelir yr etholiadau i'r Bwrdd Rheoli yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
- 2.6 Gwahoddir pob aelod o'r Gymdeithas i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, pryd derbynir yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon am y flwyddyn, penodir Archwilydd ac etholir aelodau'r Bwrdd Rheoli. Gellid hefyd cynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Arbennig o'r Gymdeithas naill ai ar gais y Bwrdd Rheoli neu un rhan o ddeg o'r aelodau. Mae gan bob aelod un bleidlais mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol neu Arbennig. Bydd aelod sy'n sefydliad corfforaethol yn penodi unigolyn i weithredu ei hawliau mewn Cyfarfodydd Cyffredinol.

**3. DERBYN AELODAU NEWYDD**

- 3.1 Bwrdd Rheoli y Gymdeithas sydd yn penderfynu ar bolisi derbyn aelodau newydd, a bydd aelodau newydd ond yn cael eu derbyn yn unol â'r polisi.
- 3.2 Derbynir ceisiadau am aelodaeth gan unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau:
  - (ii) sydd yn cefnogi ein hamcanion fel Cymdeithas elusennol; a
  - (iii) sydd â dealltwriaeth am, ac ymrwymiad tuag at, y cymunedau lle gweithreda'r Gymdeithas.
- 3.3 Nid yw'r canlynol yn medru bod yn aelodau o'r Gymdeithas:-
  - (i) plentyn dan 18 oed;
  - (ii) unigolyn a gafodd ei ddiarddel fel cyfranddaliwr, onibai bod hyn wedi ei awdurdodi trwy benderfyniad mewn Cyfarfod Cyffredinol;
  - (iii) cyflogai unrhyw aelod o'r grŵp;
  - (iv) unigolyn a gafodd ei ddiddymu o'r Bwrdd yn unol â rheol D5;

- (v) unigolyn y mae ymarferydd meddygol cofrestredig sy'n trin yr unigolyn hwnnw yn rhoi barn ysgrifenedig sy'n nodi bod yr unigolyn yn analluog yn gorfforol neu'n feddyliol i weithredu fel aelod o'r Bwrdd ac y gallai barhau felly am fwy na thri mis;
- (vi) unigolyn y mae llys, oherwydd iechyd meddwl yr unigolyn hwnnw, yn gwneud gorchymyn sy'n atal yr unigolyn, yn llwyr neu'n rhannol, rhag gweithredu'n bersonol unrhyw bwerau neu hawliau a fyddai gan yr unigolyn hwnnw fel arall;
- (vii) unigolyn a gafodd ei anghymhwysio rhag gweithredu fel Cyfarwyddwr cwmni am unrhyw reswm;
- (viii) unigolyn a gafwyd yn euog o drosedd dditiadwy nad yw, neu na all ddarfod, neu sydd wedi ei gael yn euog o unrhyw drosedd arall ar unrhyw adeg sydd, ym marn y Gymdeithas, yn dod ag anfri ar y Gymdeithas neu nad yw'n cael ei ystyried gan y Bwrdd yn gydnaws â rôl cyfrandaliwr a bod y bwrdd yn penderfynu (o fwyafrif o ddau draean o leiaf) y dylid ei ddiddymu;
- (ix) unigolyn sy'n ddarostyngedig i unrhyw gyfansoddiad a wnaed â chredydwy'r yr unigolyn hwnnw'n gyffredinol i fodloni dyledion yr unigolyn hwnnw.

3.4 Rhaid i unrhyw gais am aelodaeth gael ei wneud i Ysgrifennydd y Gymdeithas yn:

- (i) gosod allan y rhesymau dros wneud cais am aelodaeth; a
- (ii) datgan sut mae'r ymgeisydd yn cydymffurfio â'r polisi derbyn aelodau newydd (gweler cymal 3.2); a
- (iii) datgan bod yr ymgeisydd yn gymwys i fod yn aelod (gweler cymal 3.3); a
- (iv) talu y swm o un bunt; a
- (v) lle mae'r ymgeisydd yn sefydliad anghorfforedig, cadarnhau enw a chyfeiriad yr enwebai.

Darperir ffurflen aelodaeth safonol at y diben hwn.

3.5 Ystyrir pob cais am aelodaeth gan y Bwrdd Rheoli yn ei gyfarfod cyntaf wedi derbyn y cais hwnnw. Mae gan y Bwrdd Rheoli ddisgresiwn i dderbyn neu wrthod cais.

3.6 Wedi derbyn cais am aelodaeth cofnodir enw a chyfeiriad yr aelod newydd yng nghofrestr cyfranddalwyr y Gymdeithas, a chyflwynir un cyfranddaliad, tystysgrif a chopi o'r rheolau cofrestredig iddo/iddi.

Os bydd aelod newydd yn sefydliad corfforedig (e.e. cwmni cyfyngedig), cofnodir ei enw a chyfeiriad cofrestredig yn y gofrestr cyfranddalwyr. Os bydd yr aelod newydd yn sefydliad anghorfforedig (e.e. grŵp cymunedol, awdurdod lleol) cofnodir enw a chyfeiriad ei enwebai yn y gofrestr fel y cyfranddalydd. Cofnodir enw a chyfeiriad y sefydliad anghorfforedig hefyd.

3.7 Os gwrthodir cais am aelodaeth dychwelir y swm o bunt i'r ymgeisydd aflwyddiannus.

#### **4. HYRWYDDO AELODAETH**

Bydd y Gymdeithas yn defnyddio'r dulliau a ganlyn i hyrwyddo aelodaeth:-

- 4.1 Arddangosir manylion y polisi hwn a ffurflenni aelodaeth safonol ymhob un o swyddfeydd y Gymdeithas, ar y wefan, ac mewn unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus a gynhelir e.e. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, diwrnodau agored, arddangosfeydd.
- 4.2 Cyflwynir manylion y polisi hwn a ffurflen aelodaeth i bob tenant newydd.
- 4.3 Defnyddir pob cyfle posibl i sôn am yr angen am fwy o aelodau e.e. wrth annerch mudiadau, Cynghorau Cymuned.

## 5. **DIDDYMU AELODAETH**

- 5.1 Diddymir aelodaeth yn y Gymdeithas os bydd yr aelod:-
  - (i) yn marw;
  - (ii) yn cael eu diarddel (gweler 5.2);
  - (iii) yn rhoddi un mis o rybudd i'r Ysgrifennydd o'r bwriad i dynnu allan o'r Gymdeithas;
  - (iv) heb gyfranogi mewn tri Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol o'r Gymdeithas nac wedi cyflwyno ymddiheuriad ysgrifenedig ymlaen llaw;
  - (v) yn sefydliad corfforedig adeg ymaelodi, ac yn peidio â bod yn sefydliad corfforedig wedi hynny;
  - (vi) yn enwebai sefydliad anghorfforedig, a throsglwyddir y cyfranddaliad i enwebai arall o'r sefydliad.
  - (vii) os yw'r Gymdeithas yn cyflwyno hysbysiad i'r cyfranddaliwr yn gofyn iddynt nodi a ydynt yn dymuno parhau fel cyfranddaliwr, a'u bod yn methu ag ateb o fewn cyfnod amser penodol
  - (viii) os yw'r Gymdeithas wedi cael gorchymyn llys neu driwiwnlys cymwys yn ei erbyn i adennill arian sy'n ddyledus ganddynt i'r Gymdeithas
  - (ix) os ydynt yn denant ac yn torri eu cytundeb tenantiaeth neu brydles mewn modd perthnasol neu ddifrifol
  - (x) os ydynt yn denant ac yn torri gorchymyn meddiant wedi ei atal, neu'n ddarostyngedig i orchymyn llys penodol.

Pan fo cyfranddaliwr yn peidio â bod yn gyfranddaliwr neu'n cael ei ddiarddel o'r Gymdeithas, caiff ei gyfranddaliad ei ddiddymu. Daw'r swm a dalwyd am y cyfranddaliad hwnnw yn eiddo'r Gymdeithas.

- 5.2 Gellid diarddel aelod trwy gynnig arbennig mewn Cyfarfod Cyffredinol Arbennig a alwyd gan y Bwrdd Rheoli. Lle cymeradwyir cynnig i ddiarddel aelod gan Gyfarfod Cyffredinol Arbennig diddymir ei aelodaeth ar unwaith. Ni chaiff aelod a ddiarddelwyd ei aelodaeth yn ôl ond trwy benderfyniad arbennig mewn Cyfarfod Cyffredinol.